**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | D W Helliwell | T J Hennegan |
| P K Jones | W G Lewis | S Pritchard |
| G J Tanner | W G Thomas | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**
D Anderson-Thomas

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams |
| C A Holley | J W Jones |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd Will Evans – Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant - Pobl Ifanc
Y Cynghorydd Elliot King – Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant - Blynyddoedd Cynnar

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rosie Jackson | Uwch-swyddog Polisi a Lesddaliad |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Steve Porter | Rheolwr Gweithrediadau Tai |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Katie Spendiff | Children's Rights Co-ordinator |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Jane Whitmore | Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: E T Kirchner

---

**69 Datgeliadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd M Durke - personol - Cofnod Rhif 73 - Ei bartner yn gweithio i Wasanaethau Cymdeithasol Plant a Theuluoedd Cyngor Abertawe

Y Cynghorydd J W Jones - personol - Cofnod Rhif 73 - Ei ferch yn fydwraig

Y Cynghorydd M H Jones - personol - Cofnod Rhif 73 - Ei ferch yn fydwraig

**70 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**71 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Arbennig y Rhaglen Graffu gynhaliwyd ar 1 Hydref 2018 a Phwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**72 Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**73 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelodau'r y Cabinet Dros y Gwasanaethau Plant (Cynghorwyr Elliott King & Will Evans)**

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros y Gwasanaethau Plant adroddiad ar y prif benawdau ar gyfer portffolio'r Gwasanaethau Plant. Darparwyd anerchiad llafar mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig a gylchredwyd. Roedd Portffolio'r Gwasanaethau Plant wedi'i rannu i'r Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc. Roedd Amddiffyn a Diogelu Plant yn parhau o'r pwys mwyaf ar draws yr holl bortffolio.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau ag Aelodau'r Cabinet a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Casgliadau cadarnhaol diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Maethu Abertawe
- Y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol - gwneud y bwrdd yn fwy cydweithredol yn yr awdurdod a chryfhau perthnasoedd rhwng aelodau a swyddogion.
- Deilliannau Addysg i Blant sy'n Derbyn Gofal yn enwedig mewn addysg uwch a phellach
- Datblygu Ysgol Rithiol
- Therapyddion Chwarae - y ddarpariaeth yn y cyngor
- Prentisiaethau - cyfleoedd i Blant sy'n Derbyn Gofal
- Hyfforddiant Amddiffyn/Diogelu Plant
- Dechrau'n Deg - faint ohonynt sydd yn Abertawe, cyllideb, cynlluniau gwella, mesur canlyniadau
- Hyrwyddo Cynhwysiad a Dinasyddiaeth Ieuenctid - cynnwys plant Abertawe ymhlith pobl ifanc yn y Senedd Ieuenctid
- Rhyngweithio â'r Gwasanaethau Ieuenctid a Datblygu Senedd Ieuenctid
- Cyfleoedd diwylliannol i grwpiau diamddiffyn

- Mabwysiadu - cynnydd â'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol a pherfformiad, cynnydd nodedig mewn achosion cymhleth
- Y Gofrestr Amddiffyn Plant - nifer cynyddol o blant yn cael eu hailgofrestru am resymau gwahanol

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet i adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

### 74 Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc - Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2018.

Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu a'r Cydlynydd Hawliau Plant adroddiad ar Adroddiad Cynnydd Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2018. Nodwyd mai dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol yn dilyn penderfyniad y cyngor i ymgorffori'r CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) yn y Fframwaith Polisi. Darparwyd y cefndir ganddynt ac amlinellwyd cyflawniadau mewn perthynas â rhoi'r cynllun ar waith ac ymgorffori'r CCUHP ar draws y cyngor, a sicrhau sylw dyladwy drwy:

- Gynnwys a Chyfranogiad
- Hybu Gwybodaeth a Dealltwriaeth
- Cynyddu Ymwybyddiaeth
- Gwella sut rydym yn gweithio
- Darparu Tystiolaeth am Effaith

Rhoddwyd crynodeb o'r cyflawniadau yn erbyn amcanion ac, wrth edrych ymlaen at 2019, tynnwyd sylw ganddynt hefyd at y camau a'r heriau nesaf.

Amlygodd y Cydlynydd Hawliau Plant y canlynol: -

- Yn gyffredinol, roedd yn adroddiad cadarnhaol sy'n dangos cynnydd da ac y cyflawnwyd amcanion allweddol
- Sgyrsiau Mawr - roedd naw sgwrs fawr bellach yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Fe'u datblygwyd ar gyfer plant a phobl ifanc o ystod oed ehangach ac roedd yn cynnwys gwaith rhwng y cenedlaethau
- Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau - mae 100% o ysgolion bellach yn cymryd rhan yn y cynllun gwobrau. Byddai'r cyngor a staff ysgolion yn cael eu hyfforddi i fod yn aseswyr er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cael eu hachredu am ddim, a helpu i gynnal y gwaith hwn yn y dyfodol
- Cynllun Lles - Gwnaed llawer o waith gyda theuluoedd a phlant er mwyn gwneud y cynllun yn hygyrch i bawb
- Gweithio tuag at greu dinas sy'n addas i blant ochr yn ochr â datblygiadau canol y ddinas
- Cynhaliwyd Cynhadledd Dydd i Blant y llynedd a daeth llawer o blant iddo
- Mae angen iddynt bwyso a mesur y pedair blynedd diwethaf, gwerthuso ac adolygu'r cynllun
- Heriau wrth ymgorffori'r gwaith hwn, gan sicrhau ei fod yn fusnes i bawb ac yn flaenoriaeth uchel, a mesur y gwahaniaeth a wnaed.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:-

- Yr ymrwymiad i glywed lleisiau plant a gwerthfawrogi eu barn
- Mae'r angen i sicrhau bod gwybodaeth am hawliau plant (gan gynnwys Hyrwyddo'r Sgwrs Fawr) yn hygyrch ac ar gael ar amrywiaeth o lwyfannau, nad ydynt o reidrwydd ar gael drwy wefan y cyngor yn unig
- Ymgysylltu â phlant ar faterion gan gynnwys perthnasoedd, iechyd rhywiol, smygu (gan gynnwys defnyddio sigaréts electronig)

Yn gyffredinol, roedd y pwyllgor yn fodlon ar yr adroddiad blynyddol a'r gwaith blaengar a wnaed. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith caled.

**Penderfynwyd** y dylai Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau i Blant - Pobl Ifanc a Swyddogion - nodi barn y Pwyllgor ar y cynnydd.

## 75 Adroddiadau Cynnydd y Panel Perfformiad Craffu.

Darparodd y Cynghorydd Paxton Hood-Williams, Cynullydd Panel Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y diweddaraf am waith y panel hyd yn hyn. Amlygodd y ddau arolygiad diweddar a fu o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Maethu Abertawe. Roeddent yn arolygiadau trylwyr iawn ac mae'r adroddiadau wedi bod yn gadarnhaol iawn. Codwyd rhai pryderon/problemau gan y panel yn enwedig o ran ailgofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Byddai hyn yn parhau i gael ei fonitro.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad.

## 76 Craffu Cyn Penderfynu: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd 2018-2022.

Y Rheolwr Gweithrediadau - roedd Gwasanaethau Tai Cymunedol a'r Uwch-swyddog Rheoli Polisi a Lesddaliadau'n bresennol ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o Adroddiad y Cabinet ar 'Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd 2018-2022'.

Y Rheolwr Gweithrediadau - Amlygodd y Gwasanaethau Tai Cymunedol ddiwygiadau diweddar i'r strategaeth yn dilyn yr ymgynghoriad a'r mewnbwn oddi wrth y tîm craffu. Roedd y diwygiadau allweddol yn canolbwyntio ar: -

- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel egwyddor allweddol o'r strategaeth
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- 'Canolfan Atebion Cyfannol' - adolygu'r amserlen ar gyfer astudiaeth dichonoldeb.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol. Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:-

- Gwneud yn fawr o ewyllys da'r cyhoedd i helpu i fynd i'r afael â digartrefedd - edrych ar ffyrdd o ymgysylltu â phobl drwy'r flwyddyn ac nid yn y gaeaf yn unig.

- 'Canolfan Atebion Cyfannol' - yr angen am enw da ar gyfer y ganolfan arfaethedig a chyfranogaeth sefydliadau allanol wrth gynnal astudiaeth dichonoldeb
- Cyflenwad annigonol o dai cymdeithasol i ateb y galw
- Gwella perthnasoedd â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a dewisiadau amgen i ddatblygu 'Rhestr Aros Gyffredin'
- Monitro cynnydd yn erbyn y strategaeth a'r cynllun gweithredu

Diolchodd y pwyllgor i swyddogion am eu gwaith caled ar y strategaeth ac am ystyried ac ymgorffori'r sylwadau/argymhellion a wnaed gan y tîm craffu yn y strategaeth derfynol.

Yn gyffredinol, roedd y pwyllgor yn fodlon ar y strategaeth a'r cynllun gweithredu arfaethedig

**Penderfynwyd** y byddai cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni gan amlinellu barn y pwyllgor ar Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd 2018-2022, i'r Cabinet ei hystyried.

## 77 Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru i'r Tîm Craffu.

Darparodd y Cadeirydd adroddiad am 'Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru i'r tîm craffu' ac amlygodd paragraff 2.3 o'r adroddiad a oedd yn amlinellu i ba Banel/Bwyllgor Perfformiad y gellid dyrannu pob adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a ddisgwylid yn ystod y flwyddyn.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

## 78 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth y paneli a’r gweithgorau craffu.

**Penderfynwyd** nodi'r diwygiadau canlynol: -

1) Panel Ymchwilio Cydraddoldeb - Tynnu enwau'r Cynghorwyr Wendy Fitzgerald a Mo Sykes ac ychwanegu'r Cynghorwyr Lyndon Jones a Susan Jones.
2) Gweithgor Parcio i Breswylwyr - Ychwanegu enw'r Cynghorydd Chris Holley

## 79 Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad am 'Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol'.

**Penderfynwyd** cytuno ar gynnwys yr 'Adroddiadau Craffu' drafft a'u cyflwyno i'r cyngor.

## 80 Rhaglen Waith Craffu 2018/19.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2018/19.

Tynnodd sylw at y ffaith y byddai'r Sesiwn Holi Aelod y Cabinet nesaf yn trafod Gofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda. Byddai adroddiad ar ganlyniadau ôl-weithredu yn dilyn Adolygiadau Comisiynu Abertawe Gynaliadwy'n cael eu cyflwyno hefyd yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 10 Rhagfyr 2018.

**Nodwyd** Rhaglen Waith Craffu 2018/19.

## 81 Llythyrau craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am lythyrau craffu, er gwybodaeth. Dywedodd fod ymateb wedi'i dderbyn bellach i'r llythyr a anfonwyd ar 2 Gorffennaf 2018 at Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell - Pobl, ynghylch cydlyniant cymunedol.

**Nodwyd** cofnodlyfr y llythyrau craffu.

## 82 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).

**Nodwyd** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

## 83 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Nesaf Paneli/Gweithgorau.

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.00 pm

**Cadeirydd**